

# Gwers 30

## Pedwar Ffrind Da



Cyfes Stori Duw

Luc 5:17–26 . . . . .

### Nod:

Gweld bod Iesu yn poeni am anghenion corfforol ac ysbrydol pobl.

### Adnodau:

Luc 5:17–26

### Gweithgaredd:

Gofynnwch i'r dosbarth rannu yn barau. Rhwch y rhestr o gwestiynau isod iddynt, a gofyn i bob pâr holi ei gilydd am yr atebion. Ar ôl cyfnod o amser (yn dibynnu ar hyd y wers) gofynnwch i un partner gyflwyno atebion y partner arall (fel yma 'does neb yn cyflwyno'u hunain) Dyma enghreifftiau o gwestiynau y gellid eu defnyddio:

- Beth oedd enw dy anifail anwes cyntaf?
- Oes gen ti lysenw gartref?
- Beth oedd dy eiriau cyntaf pan oeddet yn fychan?
- Pe bai raid i ti orfod symud i wlad arall, pa wlad fyddet ti'n ei dewis? Pam?
- Pa raglen deledu wyt ti'n hoffi ei gwyllo?
- Os fyddai'n rhaid i ti newid dy enw, pa enw fyddet ti'n ei ddewis?
- Pe byddet ti'n anifail, pa anifail fyddet ti?

### Darllen yr adnodau:

Luc 5: 17–26

Gofynnwch i bawb ddarllen adnod yr un, yn y

drefn maent yn eistedd ynddi, hyd ddiwedd y darn.

### Trafodaeth:

Dyma rai cwestiynau i ysgogi'r drafodaeth:

1. Pam oedd cymaint o bobl yn y tŷ (ad17)?
2. Daeth pedwar dyn â'i ffrind wedi'i barlysu at Iesu. Sut aethant hwy i mewn i'r tŷ (ad19)?
3. Beth ddywedodd Iesu wrth y dyn (ad20)?
4. Beth wnaeth Iesu ar ôl hynny (ad24–25)?

Gofynnwch i'r dosbarth pwy sy'n gofalu fwyaf amdanoch chi? Ydyn nhw weithiau'n gwybod yn well 'na chi beth sydd orau? Ee Rhiant yn dweud pryd mae hi'n amser gwely er eich bod eisiau aros ar eich traed yn hwyr. Neu ffrind yn awgrymu fod 3 'Big Mac' yn fwy na digon am ddiwrnod!!

Roedd Iesu'n gwybod bod gan y dyn wedi'i barlysu broblem fwy na'r ffaith nad oedd yn gallu cerdded, ac roedd Iesu am ateb y broblem fwyaf yn gyntaf. Y broblem fwyaf oedd pechod, roedd ei galon yn ddrwg – ond mae Iesu'n dweud wrtho '...y mae dy bechodau wedi eu maddau i ti'. Mae'n iacháu ei galon – y tu mewn, yna mae'n mynd ymlaen i iacháu ei gorff – y tu allan.

'Doedd y Phariseaid yn yr ystafell ddim yn hapus fod Iesu yn maddau ei bechodau, dywedasant hwy mai Duw yn unig allai



faddau pechodau. Roedden nhw'n iawn i feddwl hyn, ond yr hyn nad oeddent wedi'i ddeall eto oedd bod Iesu Grist yn fab Duw ac felly yn gallu maddau pechodau ac iacháu yn union fel y mae Duw yn gallu ei wneud.

Fel y gwelsoch chi yn y stori, mae ffrindiau da yn cyflwyno eraill i Iesu. Ond fel yn y gweithgaredd ar gychwyn y wers, mae angen i ni adnabod Iesu ein hunain cyn i ni allu ei gyflwyno i eraill.

Pa mor anodd fyddai ceisio cyflwyno rhywrai nad ydych yn eu hadnabod o gwbl?

Sut ydym ni'n dod i adnabod Iesu? (drwy gredu ynddo, dysgu amdano yn y Beibl, clywed eraill yn ein dysgu amdano yn y Capel, a threulio amser gydag ef mewn gweddi).

### **Gweithgaredd:**

Pan gyrhaeddodd y ffrindiau'r tŷ, roedd yn llawn o bobl a dim ffordd i fynd i mewn. Fe wnaeth y ffrindiau ddarganfod ateb i'r pos hwn drwy ei ollwng drwy dwll yn y to! Tybed pwy yn y dosbarth all orffen y posau (Atodiad 17) gyntaf?

### **Amser Addoli:**

Gofynnwch i'r dosbarth beth maent hwy yn ddiolchgar amdano?

Diolchwch i Dduw ei fod ef yn gofalu am ein hanghenion corfforol a'n rhai ysbrydol. Gofynnwch iddo'n gwneud ni'n fwy diolchgar am bob peth mae'n ei roi. Diolchwch yn arbennig am Iesu, sy'n dangos i ni'r ffordd at fywyd go iawn. Amen